

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 1 O Bell Trwy Timau Microsoft ar **Dydd Llun, 4 Gorffennaf 2022** am **09:30**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 12
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 20 01 22
4. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol 13 - 16
5. Enwebiad i Banel Craffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 17 - 20
6. Diweddariad Rhaglen Gwaith 21 - 28
7. Materion Brys
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwyd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghowrwyr

RJ Collins

M J Evans

H Griffiths

D T Harrison

Cynghorwyr

M Jones

J Llewellyn-Hopkins

E Richards

T Thomas

Cynghorwyr

JH Tildesley MBE

A Williams

AJ Williams

E D Winstanley

Cynrychiolwyr Cofrestredig

Rev Canon Edward Evans

L Morris

Yr Eglwys yng Nghymru

Sector Ysgolion Uwchradd

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD IAU, 20 IONAWR 2022

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD IAU, 20 IONAWR 2022, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd KL Rowlands – Cadeirydd

JPD Blundell
CA Green

RJ Collins
M Jones

SK Dendy
SG Smith

T Giffard

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

TH Beedle, DG Howells, M Hughes, RME Stirman, T Thomas a/ac CA Webster

Cynrychiolwyr Cofrestredig

Rev Canon Edward Evans
L Morris

Yr Eglwys yng Nghymru
Secondary School Sector

Swyddogion:

Lucy Beard
Deborah Exton
Lindsay Harvey
Meryl Lawrence
Carys Lord
Mark Shephard
Kelly Watson

Swyddog Craffu
Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Prif Weithredwr
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Gwahoddedigion:

Hannah Castle
Neil Clode
Cynghorydd Huw David
Cynghorydd Jane Gebbie

Prif Athro, Ysgol Gyfun Cynffig
Prif Athro, Ysgol Gynradd Llangewydd
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet -
Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth
Cynnar
Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau
Dyfodol
Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Cynghorydd Dhanisha Patel

Cynghorydd Charles Smith

48. DATGANIADAU O FUDDIANT

Canon Edward Evans – Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Gyfun Bryntirion
Lindsay Morris – Rhiant-lywodraethwr Ysgol Gyfun Maesteg
Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Llywodraethwr Cymunedol Ysgol Babanod Cefn Glas
Y Cynghorydd Cheryl Green – Llywodraethwr Ysgol Gyfun Bryntirion ac Ysgol Gynradd Trelales
Y Cynghorydd Jane Gebbie – Llywodraethwr ALI Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ac Ysgol Gynradd Pil
Y Cynghorydd Martyn Jones – Is-gadeirydd Ffederasiwn Garw a Chadeirydd y Bwrdd Gweithredol Dros Dro Ysgol Gynradd Bro Ogwr
Y Cynghorydd Richard Collins – Llywodraethwr ALI Ysgol Gynradd Plasnewydd a Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig
Y Cynghorydd Dhanisha Patel – Llywodraethwr Ysgol Gynradd Bro Ogwr ac Ysgol Gyfun Coleg Cymunedol Y Dderwen

Y Cynghorydd Sorrel Dendy – Llywodraethwr Ysgol Gynradd Blaengarw
Y Cynghorydd Hywel Williams – Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Abercerdin

49. **ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWYR RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu adroddiad a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol, i gynrychioli'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd o Bwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol .

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd Kay Rowlands yn cael ei henwebu i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel Person Gwadd i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol.

50. **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022-23 I 2025-26**

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid grynodeb o'r adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddrafft i'r Pwyllgor ar gyfer 2022-23 i 2025-26, a oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllideb wedi'u targedu tuag at arbedion angenrheidiol. Roedd y strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2022-2026 a chyllideb referniw ddrafft manwl ar gyfer 2022-23.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a gofynnodd yr Aelodau'r cwestiynau canlynol:

Gofynnodd Cynrychiolydd Cofrestredig a fyddai peidio â chael unrhyw gynnydd yn y dreth Gyngor ynghyd a dim gostyngiad o 1% yn y gyllideb i ysgolion yn achosi cynnydd yn y dyfodol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei bod yn anodd rhagweld y sicrwydd ariannol yn y blynyddoedd i ddod, ond eu bod yn ceisio diogelu a gwella cyfleoedd bywyd llawer o bobl ar draws yr Awdurdod Lleol. Byddai'r her yn amrywio ac fel y gwelwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyllid grant sylweddol wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol. Dywedodd eu bod yn edrych ar wariant strategol ac yn ymgysylltu â'r holl bartneriaid yn y fforwm cyllideb ysgolion i sicrhau bod cyllidebau'n cael eu rheoli'n dda ar lefel ysgol. O ran newidiadau ariannol hirdymor, roedd yn amau y byddai'n anodd i unrhyw un ohonynt roi'r sicrwydd hwnnw ynghylch cynllunio hirdymor.

Ymatebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod ganddynt rai ffigurau dangosol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynnydd canrannol yn y taliad am y ddwy flynedd ddilynol. Dywedodd, er ei bod yn anodd blaengynllunio manylion y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf, y gallai sicrhau eu bod yn gallu mantoli'r gyllideb ar y gyllideb arfaethedig bresennol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod a chyn belled a'r dyfodol, roedd y gostyngiad o 1% yn dal i fod yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Cadarnhaodd fod y ddogfen yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac wrth i wybodaeth ddod yn amlycach ynglŷn â'r blynyddoedd i ddod, byddent yn adolygu popeth yn y datganiad drafft hwnnw.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio nad oedd yr 1% wedi digwydd bob blwyddyn a'u bod wedi cael eu rhoi yno fel llinell sylfaen i weithio ohoni wrth gyfrifo ffigurau sydd ddim yn gwbl fanwl nes i'r taliad ddrafft ddod i law.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y dreth gyngor yn ffigwr cydbwysu ac yn elfen olaf yr hafaliad. Dechreuodd gyda'u cyllideb gros, a chafwyd cymorth swyddogion proffesiynol i'w cynghori ar yr hyn roedd ei angen arnynt i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yna roedd yn ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb. Maent yn nodi o ble i gael yr arian i ddarparu'r gwasanaethau hynny dros y deuddeg mis nesaf. Cynghorodd nad oeddent yn gwybod pa bwysau y byddent yn eu hwynebu yn y dyfodol, felly nid oedd y bwriad i rewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2022-23 yn effeithio fawr ddim ar lefel y dreth gyngor i'w phennu'r flwyddyn ganlynol.

Holodd y Cadeirydd pa un ai ei fod o fewn eu gallu i edrych ar y blynyddoedd i ddod ac ystyried hynny wrth edrych ar y Dreth Gyngor ai pheidio, neu dim ond y deuddeg mis yr oeddent yn edrych arnynt.

Ymatebodd y Dirprwy Arweinydd fod ganddynt Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a oedd yn cynnwys ffigurau dangosol ar gyfer y pedair blynedd ganlynol, a dyna lle y daeth yr arbedion effeithlonrwydd o 1%. Roedd yn rhaid iddynt flaengynllunio'n gyfrifol ac felly roedd angen rhyw syniad o ble y byddai'r gostyngiadau hynny'n dod a chyfeiriodd at yr anhawster o reoli pwysau fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd eu bod bob amser wedi ceisio rhagweld beth fyddai'r taliad yn y dyfodol ac felly beth fyddai'r cynnydd posibl yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, nid oeddent yn gwybod sut beth fyddai chwyddiant, na beth fyddai'r pwysau na sut y byddai'r taliad yn edrych y flwyddyn nesaf. Hyd yn oed pe gallai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd iddynt ynghylch y taliad y flwyddyn nesaf, byddai'n dibynnu ar sicrwydd gan Lywodraeth y DU a oedd, yn ei farn ef, yn anodd iddynt wneud rhagolygon caled gan y byddai hynny'n dibynnu ar yr economi fyd-eang a phob math o ffactorau. Dywedodd eu bod yn ymwybodol o'r argyfwng costau byw a'r rhagolygon ynghylch cynnydd mewn costau ynni a fyddai'n taro pob cartref yn y fwrdeistref yn eithaf caled. Roeddent wedi bod yn ymwybodol o hynny wrth edrych ar gynnyg y Dreth Gyngor a'r hyn y gellid ei wneud i geisio cefnogi trigolion i ymateb ac ymdopi â'r codiadau hynny.

Roedd Aelod am wneud pwynt cyffredinol ei bod yn gobeithio y byddai taliadau yn y dyfodol yn amddiffyn eu hysgolion rhag unrhyw doriadau pellach yng Nghymru.

Ymatebodd yr Arweinyddes ei fod yn farn a rennir ar draws y siambr rithwir. Dywedodd y byddent yn datblygu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac y byddai angen cyllid refereni arni ond ei bod eisoes wedi'i gefnogi gan y Cyngor llawn. Dywedodd y byddent yn ystyried ac yn blaenoriaethu pwysau ychwanegol yn y dyfodol pan gânt eu hadnabod.

Darllenodd y Cadeirydd gwestiwn a godwyd yng nghyfarfod COSC ar 19 Ionawr y cytunwyd y byddai'n cael ei ofyn yn y cyfarfod hwn o SOSC 1. Cododd Aelod fod ysgolion wedi cael swm sylweddol o arian drwy'r gronfa galedi, a oedd yn dod i ben, a gofynnodd faint yr oedd ysgolion wedi'i hawlio o'r gronfa honno, faint a ragwelwyd ac a fyddai ei angen wrth symud ymlaen o'r gronfa honno. Roeddent hefyd yn cwestiynu a fyddai digon o arian, sut y byddai'n cael ei rannu ac a oeddent mewn perygl o gosbi teuluoedd na allent fforddio cyfrifiaduron.

Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd - yr Aelodau fod darn sylweddol o waith wedi'i wneud dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r holl ysgolion i sicrhau bod unrhyw ddysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol wedi cael y pecyn priodol. Dywedodd eu bod wedi ymgysylltu ag ysgolion ac nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddisgybl nad oedd yn gallu cael gafael ar y pecyn priodol. Dywedodd fod arian grant sylweddol wedi'i roi i ysgolion dros y ddwy flynedd ddiwethaf i liniaru'r risgiau o wynebu heriau gwirioneddol gyda'u cyllidebau ac roedd yn rhywbeth yr oeddent wedi gweithio'n agos iawn arno gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Wrth symud ymlaen, dywedodd y byddai rhai grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhai

pethau, ond bod Telerau ac Amodau ynghlwm y rheini, a byddai angen i ysgolion fod yn ymwybodol ohonyn nhw.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi cymryd camau cyflym ar ddechrau'r pandemig i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar TG a'r rhyngwyd. Gofynnodd am eglurhad am sylwadau'r Aelod ynghylch y Gyllideb Ysgolion o 1%.

Eglurodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu fod cyfeiriad yr Aelod at yr 1% wedi bod yng nghyd-destun yr ysgolion wedi derbyn swm sylweddol o arian o'r gronfa galedi, a phan gafodd ei ddileu os nad oedd dewis arall i ysgolion adennill gwariant o'r fath, yna byddai'r arian sy'n cael ei wario ar lanhau dwfn, glanweithyddion dwylo, offer cyfrifiadurol olygu fod llai o arian i'w wario ar addysg. Dywedodd fod yr Aelod wedi gofyn faint o arian yr oedd ysgolion wedi'i hawlio o'r gronfa galedi a faint a ragwelwyd y byddai angen iddynt ei hawlio wrth symud ymlaen, gan eu bod wedi mynegi pryderon ynghylch digonolrwydd y £1Min o Gyllideb ddrafft y Cyngor Cyfan a gofynnodd a fyddai ysgolion yn gallu hawlio ohono.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd eu bod wedi edrych yn strategol ar weledigaeth hirdymor ar gyfer ariannu mewn ysgolion a thrwy weithio gyda Llywodraeth Cymru roedd ganddynt y grant seilwaith canolfannau ar waith a oedd wedi'i sefydlu ar ddiwedd 2018-2019 gyda'r golwg ar wariant strategol saith mlynedd. Esboniodd nad oeddent yn prynu cyfrifiaduron unwaith yn unig ac yna nid oedd angen eu hailgyflenwi, roedd angen i ysgolion fod yn ymwybodol o gyfanswm cost perchnogaeth cyfarpar ac roedd hynny'n rhywbeth yr oeddent wedi'i wneud gydag ysgolion drwy TGCh, yn ogystal â chynnwys penaethiaid o fewn y Grŵp Strategaeth Ysgolion TGCh. Roedd y strategaeth dros saith mlynedd yn arwain at 2025 ac roedd yn seiliedig ar gyfraniad o 50% gan ysgolion a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sy'n cefnogi ac yn galluogi'r ysgolion i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod.

Dywedodd Pennaeth Ysgol Gyfun Cynffig ei bod yn credu bod ysgolion mewn gwell sefyllfa nawr i gefnogi'r disgyblion hynny a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol, a'u bod yn parhau i gynnig dysgu cyfunol. Esboniodd fod ysgolion wedi cymryd arian o'r gronfa galedi ac wrth edrych i'r dyfodol wedi meddwl tybed sut yr oeddent yn mynd i reoli rhai o'r costau hynny ond eu bod wedi cael eu rhybuddio ynghyd a thrafod y mater ac yn dechrau meddwl am eu proses gynllunio. Esboniodd nad oeddent yn gwybod beth yr oeddent yn mynd i fod ei angen, gan ei bod yn anodd penderfynu a oeddent yn mynd i fod angen yn y dyfodol beth yr oedd y gronfa galedi wedi'i ddarparu, ond dywedwyd wrthynt fod angen iddynt ystyried y gallai ddod i ben ac felly roeddent yn meddwl am ffyrdd y gallent reoli eu cyllideb i ddelio â'r sefyllfa.

Symudodd y Cadeirydd y cyfarfod ymlaen i Atodiad A a phwysau'r gyllideb.

Gofynnodd Aelod o gofio bod y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn gymaint o bwysau cyllidebol, pa arbedion effeithlonrwydd a ystyriwyd, boed yn adolygiadau dalgyllch yn unig a llwybrau diogel i'r ysgol, a pha ystyriaethau a roddwyd i sicrhau unrhyw arbedion effeithlonrwydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gwaith sylweddol wedi'i wneud a bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ddwy flynedd yn ôl ar ddarn o waith yn edrych ar ymgynghori â'r cyhoedd, ar bump neu chwe llwybr yn ymwneud â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, dalgylchoedd a llwybrau mwy effeithlon. Roeddent wedi edrych ar sut y gellid mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hynny ynghyd â darparu cludiant i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, felly bu'n adolygiad eang. Dywedodd wrth yr Aelodau eu bod yn aros am ganlyniad adolygiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch polisi cyffredinol o'r cartref i'r ysgol cyn symud ymlaen ag

unrhyw newidiadau yn y polisi, ond ei fod yn cael ei adolygu'n gyson. Roedd yn ymwybodol ei fod yn rhan sylweddol o'r gyllideb ac roedd am wneud yn siŵr eu bod yn darparu gwasanaethau effeithiol yn unol â'r cyfrifoldebau statudol ond hefyd yn sicrhau ei fod yn ariannol gynaliadwy.

Ymatebodd Aelod er ei fod yn deall eu bod yn aros am adolygiad Llywodraeth Cymru, a oeddent unrhyw agosach at ddyddiad cwblhau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd dyddiad pendant ganddynt, roedd yr Arweinydd wedi cysylltu â'r Gweinidog yn gofyn am wybodaeth, ond ei fod yn ddarn sylweddol o waith, a'u bod yn ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn gynhwysfawr.

Gofynnodd y Cadeirydd, gan fod cryn dipyn o arian o fewn y wasgfa, a fyddai modd i Aelodau'r Pwyllgor gael dadansoddiad o gyfanswm y wasgfa hon ar gyfer y costau unigol.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Cyfeiriodd Aelod at yr Awdurdod yn draddodiadol fel un o'r awdurdodau mwyaf hael yng Nghymru ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a gofynnodd a oedd hynny'n dal yn wir. Roedd yn ymwybodol ei fod yn dod allan o'r gyllideb Addysg ac felly'n effeithio ar gyllidebau ysgolion.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd eu bod yn cynnig trefniant cludiant hael o'r cartref i'r ysgol. Roedd y Cabinet wedi cytuno ar ddull meinhaus yn ôl yn 2015 a gwelwyd wrth fod grwpiau gwarchoddedig o ddysgwyr yn llai dibynnol ar y budd-dal wrth iddynt fynd yn hŷn ac roeddent wedi gweld llai o arian yn cael ei dynnu o'r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn. Un o'r heriau a eglurodd oedd bod cost cludiant o'r cartref i'r ysgol wedi cynyddu'n gyffredinol, nad oedd hyn yn benodol i Ben-y-bont ar Ogwr ac roedd yn wasgfa a oedd yn cael ei deimlo gan bob awdurdod lleol ar draws y Deyrnas Unedig. Dywedodd ei bod yn allweddol iddynt sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru a gwneud yn siŵr eu bod yn darparu'r trefniadau gorau posibl i sicrhau bod eu dysgwyr yn cael eu cludo i'r ysgol yn effeithiol a gwneud yn siŵr ei fod yn ariannol gynaliadwy.

Dywedodd yr Arweinydd mai'r rheswm mwyaf am y wasgfa ar y gyllideb oedd cost chwyddiant a oedd yn cael ei brofi ar draws y diwydiant ac ar draws Gymru gyfan.

Symudodd y Cadeirydd y cyfarfod ymlaen i EFS1 - y goblygiadau refereniw ar gyfer cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid darparu mwy o fanylion iddynt a pham ei fod yn £500k dangosol ar gyfer 2023-24 ac nid yn cael ei gynnig ar gyfer 2022-23.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod yr amlen gyllideb gyffredinol tua £68M, bod dwy elfen o gwmpas £40-45M o gyfalaf ac yna byddai'r gweddill yn gyfansawdd o gyllid refereniw ynghylch y model buddsoddi cilyddol trwy Lywodraeth Cymru. Eglurodd y byddent yn tynnu'r cyllid i lawr ar ei gyfer yn y blynnyddoedd i ddod pan fyddai'r cynlluniau hynny'n dechrau dwyn ffrwyth, wrth iddynt ddechrau adeiladu ysgolion. Ar y pwynt hwnnw byddent yn cynyddu eu costau refereniw wrth adeiladu'r ysgolion hynny ond gan nad oeddent yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, nid oeddent yn eu cyllideb. Esboniodd y byddai'r £500k yn daliadau yn erbyn y cyfalaf y byddai ei angen arnynt er mwyn i'r ysgolion newydd fynd ar-lein.

Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid nad ydynt yn ariannu ysgolion drwy'r rhaglen gyfalaf - byddai'r contractwr yn adeiladu'r ysgol ac yn talu amdani, ac y byddent wedyn yn talu

amdani dros gyfnod o 25 mlynedd drwy eu cyllideb referniw. Eglurodd fod y dyddiadau yn edrych fel eu bod am ddisgyn o fewn blwyddyn ariannol 2023-24, ond y gallai hyn lithro, felly roeddent yn cadw llygad arno. O ran faint yr oedd yn rhaid iddynt ei ariannu, nid oedd hynny wedi'i gytuno'n bendant gan y byddai'n dibynnu ar y pris, pwy oedd yn adeiladu'r ysgol a'r cynllun felly roedd cryn dipyn o benderfyniadau i'w gwneud. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu 81% o'r gost referniw, felly byddai eu cyfran hwy yn 19% yn flynyddol dros y cyfnod o 25 mlynedd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at EFS2 - Canolfan Adnoddau Dysgu Anawsterau Dysgu Cymedrol Cyfrwng Cymraeg ar lefel Ysgol Uwchradd, yn cael ei chynnwys fel gwasgfa am flwyddyn a gofynnodd a fyddai'n gyllid craidd yn y blynyddoedd i ddod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod dyletswydd statudol o ran addysg cyfrwng Cymraeg, a'i fod am wneud yn siŵr bod pob dysgwr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu darpariaeth benodol trwy'r iaith o'u dewis. Eglurodd yn y lle cyntaf y byddent yn ei sefydlu ac y byddai cyllidebau yn y dyfodol yn cael eu pennu.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai llinell gyllideb graidd barhaus gyda chynnydd arfaethedig ond dim ond yn y flwyddyn gyntaf y cânt eu dangos yno ac yna yn y gyllideb graidd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Eglurodd unwaith y byddai'r Ganolfan Adnoddau Dysgu wedi ei sefydlu, y rhagwelir na fyddai pwysau ychwanegol gan y byddai athrawes a chefnogaeth ychwanegol yno. Felly, roedden nhw wedi nodi swm bach o gostau cychwynnol wrth ddodrefnu'r ystafell ddosbarth, a oedd eisoes wedi'i gyllidebu ar ei gyfer. Byddai'r gyllideb graidd ar gyfer costau staffio, a byddai hynny'n barhaus ac yn rhan o'r gyllideb sylfaenol wrth symud ymlaen.

Holodd y Cadeirydd ynghylch y £92k a gynigiwyd yn 2022-23. Eglurodd yr Arweinydd mai dyna oedd cost y staff addysgu.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd y byddai'r pwysau cyllidebol arfaethedig yn mynd i mewn i'r gyllideb sylfaenol, felly byddai hynny'n digwydd bob blwyddyn ac yn mynd i mewn i'r gyllideb wrth symud ymlaen, oni nodir yn wahanol.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd hynny'r un peth ar gyfer EFS3 - y cynnydd yn y galw ar y gyllideb Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei bod yn broses debyg, fodd bynnag, roedd hon yn wasgfa arbennig fel y nodwyd ganddynt, gan eu bod yn edrych i mewn i gynhyrchu pecynnau mwy pwrpasol ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol. Esboniodd eu bod yn ceisio sicrhau eu bod yn gallu darparu'r gofal, y cyngor a'r addysg orau bosibl i'r dysgwyr hynny a bod hynny'n golygu rhai costau ychwanegol.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd myfyrwyr ychwanegol wedi ymrwymo i ddysgu o gartref ers dechrau'r pandemig.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod addysg ddewisol yn y cartref yn fater ar wahân ond ei fod wedi cynyddu.

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Cofrestredig at EFS 4 – Adnoddau sydd eu hangen i gefnogi gweithrediad Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 a gofynnodd a oedd yn ganlyniad uniongyrchol i ddeddfwriaeth yn cael ei phasio gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r gost yn cael ei thalu ganddi yn hytrach na'r Awdurdod Lleol.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd bod dyletswydd statudol wedi'i gosod ar awdurdodau lleol gan y Ddeddf hon a dywedodd fod y cynigion yn y Ddeddf yn cael eu croesawu ynghyd ag unrhyw gymorth ychwanegol a roddir i ddysgwyr yn enwedig y rhai sydd ag anghenion dysgu digidol a dylid croesawu mireinio'r system. Dywedodd eu bod wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, nad oedd ganddo'r union ffigurau wrth law ond y gallai eu darparu. Yr her yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym oedd ei chyflwyno a'r costau sefydlu.

Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad a oedd y cyllid ychwanegol wedi'i glustnodi ar gyfer y swm hwnnw'n benodol ai peidio ag a fyddai hynny'n digwydd yn y blynyddoedd i ddod, neu a fyddai'n cael ei ymgorffori i'r pot ariannu a heb ei nodi ar wahân. Gan fod pryder y byddai'n cael ei ymgorffori i'r pot ariannu ac ni fyddent yn gallu deall pa un ai ei fod yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ai peidio.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd na allai ddweud ei fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r union swm hwnnw, nid oedd yn gallu cynnig y sicrwydd hwnnw eto ac y byddai angen iddo wirio. Esboniodd eu bod yn gwybod beth oedd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn honno, ond nid ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd Cynrychiolydd Cofrestredig a oedd tystiolaeth o deuluoedd yn symud i'r ardal yn bwrsasol i blant fynychu Ysgol Heronsbridge ac Ysgol Bryn Castell.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod ganddynt ddwy ysgol arbennig ragorol ac er ei bod yn bosib, roedd yn anodd cadarnhau hynny. Dywedodd eu bod yn awyddus i wneud yn siŵr nad oes angen i ddysgwyr yn y Fwrdeistref Sirol deithio pellteroedd sylweddol yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr heriau, wrth gwrs, oedd bod hynny'n lleihau nifer y lleoedd y gallant eu rhyddhau i bob pwrpas drwy awdurdodau lleol eraill ac felly mae hynny'n lleihau eu posibiliadau o ran creu incwm ym mhob ysgol, felly mae'n gydbwysedd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd plentyn wedi symud yn benodol i Ben-y-bont ar Ogwr i gael mynediad i'r ysgolion, a oedd cyfle i siarad â'r awdurdod cyfagos am gymorth i ariannu'r lle hwnnw yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod angen iddynt fodloni'r gofynion statudol hynny, rhywbeth yr oeddent yn ei wneud a'u bod yn ffodus o fewn y gymuned Gymraeg fod ganddynt gytundeb dwyochrog clir gyda natur y recriwtio'n golygu gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r lleoedd hynny fel ag y gallant. Roedd heriau amlwg ond roedd ganddynt berthnasoedd cadarnhaol ac nid oedd yn ymwneud ag incwm yn unig ond sicrhau'r gorau i ddysgwyr ble bynnag y maent yn byw.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddadansoddiad o gostau Buddsoddiad ESF7 Gwasgfa Gyllidebol yn y Gwasanaeth Cymorth Cynnar, er mwyn sicrhau bod y broses asesu lawn yn cael ei chwblhau, lleihau amseroedd aros am atgyfeiriadau a gwella ansawdd.

Cyfeiriodd Aelod at yr effaith hirfaith a gafodd COVID ar fywydau pobl, a fyddai'n golygu gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn gallu mynd yn ôl i'r gwaith a allai gael sgil-effaith ym myd addysg hefyd. Gofynnodd a oedd hyn wedi'i ymgorffori yn y wasgfa bosibl ar gyllidebau.

Cyfeiriodd Aelod at Gynnig Lleihau'r Gyllideb EFS1 - Rhesymoli Gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a gofynnodd a oedd oedolion nad oeddent yn gallu fforddio talu'r swm llawn am ailhyfforddi yn cael eu cefnogi a'u helpu trwy wahanol ffyrdd a chynlluniau eraill.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, wrth ystyried cymhorthdal, un o'r pethau a welsant dros y ddwy flynedd diwethaf oedd eu bod wedi gwneud pethau'n wahanol, eu bod wedi gallu lleihau costau mewn rhai meysydd yn ymwneud â Dysgu Cymunedol megis llogi lleoliad ac ymgymryd â chysiau'n ddigidol, felly roedd hynny wedi arwain at effeithlonrwydd gwasanaeth. Dywedodd eu bod yn edrych ar feysydd eraill a mecanweithiau cymorth eraill i ganiatáu i bobl a oedd o dan amgylchiadau gwahanol ddychwelyd i'r gwaith ac nid dim ond dysgu oedolion gan fod ganddyn nhw nifer o gynlluniau o fewn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau a oedd yn cefnogi cael cyflogaeth i bobl. O ran cefnogi pobl yn ehangach, roeddent wedi cael adborth da o adolygiad diweddar, gan nodi bod y gwasanaethau'n gweithredu'n effeithiol ac yn sicr yn cefnogi pobl mewn amgylchiadau gwahanol â sgiliau gwahanol. Dywedodd wrth yr Aelod os oedd unrhyw beth yr hoffent ei weld o fewn y rhaglen, i'w fwydo'n ôl iddo i'w ystyried.

Dywedodd yr Arweinydd eu bod wedi cytuno yn y Cabinet i gofrestru ar gyfer prosiect Trawsnewid Rhanbarthol Connect Engaged Listening Transform a fyddai'n rhoi £274k ychwanegol o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pobl ddi-waith. Byddai rhywfaint o'r cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio i gefnogi dros 40 o bobl ag addysg a hyfforddiant a chefnogi dros 40 gyda sgiliau bywyd. Felly byddai hyfforddiant dysgu addysg oedolion yn cael ei ariannu drwy wahanol lwybrau, a byddent yn gweithio gyda phobl sydd â'r angen mwyaf a phobl agored i niwed.

Gofynnodd Aelod a oedd sgysiau wedi dechrau gydag ysgolion ynghylch yr arbediad effeithlonrwydd o 1% ac a oeddent yn cael y gefnogaeth y byddai ei hangen arnynt i wneud ac ariannu hynny. Gofynnodd hefyd i gynrychiolwyr yr ysgolion a oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr Awdurdod os oedd angen i'r toriad hwn ddigwydd.

Dywedodd Pennaeth Ysgol Iau Llangewydd fod yr arbediad o 1% wedi'i gynnig ers peth amser ac nad oedd wedi dwyn ffrwyth a'u bod yn ddiolchgar amdano. Eglurodd mai costau staffio oedd y mwyafrif o'u costau ac o ran toriad o 1% wrth symud ymlaen ei bod yn rhy fuan i ystyried iddo ar lefel bersonol sut y byddai'r toriadau hynny'n cael eu gwneud. Pe bai effeithlonrwydd o 1% ar gyfer Ysgolion yn digwydd a bod yn rhaid iddynt dorri staff yna byddai hynny'n cael effaith anochel ond nid oedd yn teimlo ar yr adeg honno o dan ormod o bwysau i ddilyn y trywydd hwnnw a'r rheswm am hynny oedd bod cymaint o bethau anfesuradwy o ran niferoedd disgyblion a phethau eraill. Fodd bynnag, ailadroddodd pe bai'n digwydd, y byddai effaith.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd mai dyna'r heriau wrth symud ymlaen fel y nodwyd, eu bod yn gwybod beth oedd i ddod ac yn gwneud llawer o waith i ragweld y rheini ond, gallai fod newidiadau a fyddai'n effeithio ar gyllidebau ysgolion, ac roedd ysgolion yn ymwybodol o hynny. Dywedodd eu bod yn ymwybodol o gyllidebau a oedd wedi dod i law drwy grantiau Llywodraeth Cymru a oedd wedi bod o gymorth dros y ddwy flynedd flaenorol. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod ysgolion yn rheoli eu cyllidebau yn ofalus a bod y Prifathrawon yn alluog iawn ac yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i wneud yn siŵr bod y gwariant yn briodol ac wedi'i dargedu bob amser at anghenion y dysgwyr.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Gynnig Lleihau'r Gyllideb SCH1 - Arbedion Effeithlonrwydd yn erbyn Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion a gofynnodd a oedd y gostyngiadau arfaethedig ar gyfer 2022-26 ddim yn realistig ac a ddylent aros.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei bod yn bwysig cadw llygad ar hyn ac fel gyda phob gwasanaeth roedd dyletswydd arnynt i wneud yn siŵr eu bod yn darparu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Credai mai eu prif nod oedd gwneud yn siŵr bod yr addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel ym Mhen-y-bont

ar Ogwr, felly roedd yn rhaid iddynt gydbwysu hynny, ac roedd yn briodol gwneud yn siŵr bod y trafodaethau parhaus hynny'n cael eu cynnal.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor a oedd am ofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, felly gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r atodiadau, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol i'w cydgrynhoi ac i'w cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drafft, gan gynnwys y wasgfa arfaethedig ar y gyllideb a'r cynigion i leihau'r gyllideb o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu hwn, fel rhan o'r proses ymgynghori ar y gyllideb:

Argymhellion:

1. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad y COSC a wnaed ar 19 Ionawr 2022 i gynnal adolygiad cadarn o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Corfforaethol, fel y'u cynlluniwyd cyn y pandemig. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet fod yn ymwybodol o ganlyniadau effaith y pandemig gan gynnwys dal i fyny gyda'r dysgu, iechyd meddwl plant a materion diogelu wrth edrych ar yr adolygiad hwn, ac effaith gostyngiadau posibl yn y dyfodol ar ysgolion ac addysgu.
2. Mewn perthynas â'r Gostyngiad Dangosol yn y Gyllideb SCH1 o 1% ar gyfer 2023-24 i 2025-26, argymhellodd y Pwyllgor fod y Cabinet yn llobio Llywodraeth Cymru ynghylch yr effaith andwyol y mae Covid wedi'i chael ar blant a'u dysgu a'r angen i ddechrau archwilio a thrafod cyllid ar gyfer ysgolion yn y dyfodol, gan fod gan Gymru'r gyllideb isaf fesul disgybl yn y DU a Phen-y-bont ar Ogwr yn is na rhai Awdurdodau eraill yng Nghymru, a'r angen i geisio diogelu dysg plant rhag arbedion yn y dyfodol a allai o bosibl effeithio ar effeithiolrwydd addysgu.
3. Cydnabu'r Pwyllgor yr angen i allu cynllunio ar gyfer y dyfodol yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chefnogwyd yr argymhelliad a gynigiwyd gan COSC ar 19 Ionawr 2022, y dylai'r Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn eu hannog i bennu cylch taliad cyllideb Strategaeth Ariannol Tymor Canolig aml-flwyddyn o 3 neu 5 mlynedd.
